TGAU

# CBAC TGAU
# Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu: Uned 4 - Cymdeithas sy'n newid
## Pecyn addysgu enghreifftiol
## Modern

Addysgu o 2026
Dyfarnu o 2028



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

# TGAU Hanes Uned 4: Cymdeithas sy'n newid

**Enghraifft:** Yr Ugeinfed Ganrif – Chwyldro Cymdeithasol?

Pynciau hanesyddol a ddewiswyd fesul thema

| | |
|---|---|
| **Gwleidyddiaeth** | Y mudiad pleidlais i fenywod |
| **Heddwch a gwrthdaro** | Prydain yn y Rhyfel Byd Cyntaf, a'i rôl yn yr ardrefniannau heddwch a ddilynodd |
| **Cymdeithas ac economi** | Dyfodiad y Dirwasgiad |
| **Cydraddoldeb ac anghydraddoldeb** | "Dwy Brydain" yr 1930au |
| **Cysylltiadau Rhyngwladol** | Dyfodiad Rhyfel |
| **Ethnigrwydd** | Cenhedlaeth Windrush |
| **Crefydd** | Mudiad sy'n dirywio? |
| **Rhyw, rhywioldeb a rhywedd** | Cymdeithas oddefol |
| **Diwylliant** | Pync – gwrthddiwylliant? |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Gwleidyddiaeth
**Pwnc** Y Mudiad Pleidlais i Fenywod

**Eitem 1** Neil DeMarco a Richard Radway, addysgwyr ac awduron hanes, yn eu llyfr i fyfyrwyr TGAU *The* Twentieth Century 1900–1995: *A World Transformed* (1997).

Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, nid oedd menywod yn gallu pleidleisio a dim ond dynion a oedd yn berchen ar eu tai eu hunain oedd yn gallu gwneud. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sefydlwyd Undeb Genedlaethol y Cymdeithasau Pleidlais i Fenywod (NUWSS) er mwyn mynnu pleidlais i fenywod. Cafodd ei chefnogi i raddau helaeth gan fenywod yr oedd ganddynt swyddi da neu a oedd yn gyfoethog. Cafodd yr NUWSS ei harwain gan Millicent Fawcett ac erbyn 1914, roedd wedi dod yn sefydliad mawr â 53,000 o aelodau. Prif amcan yr undeb oedd caniatáu i fenywod bleidleisio ar yr un telerau â dynion. Nid oedd yn ymgyrchu i bob oedolyn allu pleidleisio, dim ond y rhai hynny a oedd yn berchen ar dai. Yn gyffredinol, cyfeiriwyd at aelodau'r NUWSS fel “swffragwyr”.

Yn 1903, sefydlodd Emmeline Pankhurst, merch gwneuthurwr cotwm cyfoethog, sefydliad arall i fenywod a oedd am gyflawni mwy na hyn. Ei enw oedd yr Undeb Cymdeithasol a Gwleidyddol i Fenywod (WSPU) ond fel arfer, cyfeiriwyd at ei haelodau fel y swffragetiaid. Ei slogan oedd “Gweithredoedd nid Geiriau”. Roedd aelodau'r WSPU yn cymryd camau gweithredu uniongyrchol; roeddent yn tarfu ar gyfarfodydd gwleidyddol, yn cadwyno eu hunain wrth reiliau, yn rhwygo paentiadau yn yr Oriel Genedlaethol ac fe wnaethant hyd yn oed blannu bom bach yn Abaty San Steffan.

**Thema** Gwleidyddiaeth
**Pwnc** Y Mudiad Pleidlais i Fenywod

**Eitem 2** Darn o araith ‘Freedom or Death’ Emmeline Pankhurst a gyflwynodd yn Hartford, Connecticut (13 Tachwedd 1913).

Wedyn daeth y ddeddfwriaeth - "Deddf y Gath a'r Llygoden". Dywedodd yr ysgrifennydd cartref: "Rhowch imi'r pŵer i ryddhau'r menywod hyn pan fyddant wrth borth marwolaeth a rhoi rhyddid iddynt dan drwydded hyd nes y byddant yn holliach eto, ac wedyn dewch â nhw nôl." Pasiwyd y ddeddf i dawelu'r dyfroedd, i wneud i'r menywod ildio - gan mai dyna'r sefyllfa sydd ohoni, foneddigion a boneddigesau. Mae'n frwydr rhwng y menywod a'r llywodraeth i weld pwy wnaiff ildio gyntaf, p'un a wnawn nhw ildio a rhoi'r hawl i ni bleidleisio, neu p'un a wnawn ni roi'r gorau i ymgyrchu.

Wel, does fawr ddealltwriaeth ganddynt o fenywod. Mae menywod yn araf iawn i godi, ond unwaith y byddant wedi gwneud, unwaith y byddant yn benderfynol, does dim ar wyneb y ddaear nac yn y nefoedd a wnaiff i fenywod ildio; mae'n amhosibl. Ac felly, mae "Deddf y Gath a'r Llygoden" sy'n cael ei defnyddio yn erbyn menywod heddiw wedi methu. Mae yna fenywod wrth borth marwolaeth, sy'n dod o hyd i ddigon o gryfder i gael llawdriniaethau, nad ydynt wedi ildio ac na wnânt ildio, ac a fydd yn barod, cyn gynted ag y byddant wedi codi o'u gwely salwch, i barhau fel o'r blaen. Mae yna fenywod sy'n cael eu cario o'u gwely salwch ar stretsieri i gyfarfodydd. Maent yn rhy wan i siarad, ond maent yn ymuno â'u cydweithwyr er mwyn dangos bod eu hysbryd yn gryf o hyd, bod yr ysbryd hwnnw yn fyw ac yn iach, a'u bod yn bwriadu parhau â'r frwydr hyd ddiwedd eu hoes.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Gwleidyddiaeth
**Pwnc** Y Mudiad Pleidlais i Fenywod


**Eitem 3** Derrick Murphy, Richard Staton, Patrick Walsh-Atkins a Neil Whiskerd, Addysgwyr ac awduron hanes, yn eu llyfr i fyfyrwyr Safon Uwch *Britain* 1783–1918 (2003).

Gellid dadlau yn erbyn honiadau teulu Pankhurst fod eu tactegau wedi arwain at lwyddiant cynnar. Yn sicr, llwyddodd WSPU i ennyn cefnogaeth, ond cododd wrychyn gwrthwynebwyr hefyd gan eu galluogi i gyhuddo menywod o fod yn anghytbwys yn emosiynol ac yn anaddas i chwarae rhan fwy weithredol mewn cymdeithas. Fodd bynnag, wrth i'r Swffragetiaid greu awyrgylch o argyfwng, dim ond rhan o ddarlun mwy oedd eu gwaith nhw.

Roedd menywod, yn enwedig o'r dosbarth canol, yn chwarae rhan fwy mewn gwleidyddiaeth. Roedd Beatrice Webb, er enghraifft, yn aelod blaenllaw o'r Ffabiaid [sefydliad Sosialaidd Prydeinig], er bod cyfranogiad menywod mewn polisi a threfniadaeth genedlaethol yn anghyffredin. Ar lefel leol y datblygodd pethau mewn ffordd fwy dramatig.

**Thema** Gwleidyddiaeth
**Pwnc** Y Mudiad Pleidlais i Fenywod

**Eitem 4** Poster yn hysbysebu *The* Suffragette, sef cylchgrawn yr Undeb Cymdeithasol a Gwleidyddol i Fenywod (1914).




© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Heddwch a gwrthdaro
**Pwnc** Prydain, y Rhyfel Byd Cyntaf a'r ymdrechion i sicrhau heddwch

**Eitem 5** Yr Athro Gary Sheffield, hanesydd milwrol, yn amlinellu rhesymau Prydain dros fynd i ryfel yn y Rhyfel Byd Cyntaf yn yr erthygl *'The Origins of the First World War'* ar adran Hanes gwefan y BBC (3 Awst 2008).

Aeth Prydain i ryfel gan ei bod yn credu y byddai buddugoliaeth i'r Almaen yn peri bygythiad i'w diogelwch. Ers canrifoedd, roedd Prydain wedi ymladd i gadw'r cydbwysedd grym yn Ewrop, er mwyn sicrhau na fyddai gan unrhyw wladwriaeth unigol ormod o rym. Roedd yr Almaen o dan reolaeth y Kaiser, yn dilyn Ffrainc o dan reolaeth Napoleon, a chyn Hitler, yn fygythiad i sefydlogrwydd. Yn arbennig, roedd Prydain yn bryderus iawn am Wlad Belg. Yn nwylo'r gelyn, roedd porthladdoedd Gwlad Belg yn peri bygythiad sylweddol i oruchafiaeth morwrol Prydain ac felly i ddiogelwch Ynysoedd Prydain. Doedd dim unrhyw opsiwn arall gan Brydain mewn gwirionedd ond mynd i ryfel yn 1914. Pe bai Ffrainc wedi cael ei threchu, byddai Prydain wedi wynebu'r hunllef yr oedd wedi bod yn ymladd i'w hosgoi ers oes Elisabeth I: y cyfandir dan brif ddylanwad un wladwriaeth ymosodol.

**Thema** Heddwch a gwrthdaro
**Pwnc** Prydain, y Rhyfel Byd Cyntaf a'r ymdrechion i sicrhau heddwch

**Eitem 6** Norman Lowe, addysgwr ac awdur hanes, yn amlinellu nodau Prydain yn ardrefniant Heddwch Paris yn ei lyfr *Modern British History* (2009).

Roedd nodau rhyfel Prydain yn annelwig ar y cychwyn. Dywedwyd wrth y cyhoedd mai'r bwriad oedd amddiffyn Gwlad Belg. Ym mis Ionawr 1918, esboniodd Lloyd George nodau rhyfel Prydain yn fanylach. Roeddent yn cynnwys amddiffyn democratiaeth, dychwelyd ardal Alsace-Lorraine i Ffrainc a'i chymryd oddi wrth yr Almaen, adfer Gwlad Belg a Serbia, Gwlad Pwyl annibynnol, hunanlywodraeth ddemocrataidd i genhedloedd Awstria-Hwngari, hunan-benderfyniad i drefedigaethau'r Almaen, a sefydliad rhyngwladol i atal rhyfel.

Mewn araith ddigymell a wnaed ym mis Rhagfyr, yr oedd yn edifar ganddo amdano yn ddiweddarach, dywedodd Lloyd George y dylai fod yn ofynnol i'r Almaen dalu cost gyfan y rhyfel. Awgrymodd Syr Eric Geddes, un o'r dynion busnes a benodwyd i'r llywodraeth gan Lloyd George, y dylid "gwasgu'r Almaen hyd nes y byddai'n gwichian".

Pan oedd yr etholiad [Rhagfyr 1918] wedi hen orffen, newidiodd Lloyd George ei iaith i iaith fwy tyner, ac yn y gynhadledd, dadleuodd ei bod hi'n hanfodol ymdrin â'r Almaen mewn ffordd drugarog fel na fyddai pethau'n troi'n chwerw ac er mwyn i fasnach ryngwladol allu dychwelyd i normal eto. Ar y llaw arall, roedd bellach yn teimlo y dylid rhoi trefedigaethau Affricanaidd yr Almaen i Brydain ac y dylid caniatáu iddi gadw tiriogaethau Twrci yn y Dwyrain Agos â'u cyflenwadau olew gwerthfawr.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Heddwch a gwrthdaro
**Pwnc** Prydain, y Rhyfel Byd Cyntaf a'r ymdrechion i sicrhau heddwch

**Eitem 7** John Maynard Keynes, economegydd a phrif gynrychiolydd Trysorlys EF yn Ardrefniant Heddwch Paris, yn ei lyfr *The Economic Consequences of the Peace* (Rhagfyr 1919). Roedd Keynes yn un o feirniaid cryf yr ardrefniant ac, ym mis Mehefin 1919, ymddiswyddodd o'i swydd fel protest yn erbyn y cytundeb.

Nid yw'r Cytundeb yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau ar gyfer adsefydlu Ewrop o safbwynt economaidd – dim byd i annog yr Ymerodraethau Canolog i fod yn gymdogion da, dim byd i sefydlogi Gwladwriaethau newydd Ewrop, dim byd i adennill Rwsia; ac nid yw'n annog unrhyw ymdrechion i sicrhau sefydlogrwydd economaidd ymhlith y Cynghreiriaid eu hunain ychwaith; ni lwyddwyd i lunio unrhyw drefniant ym Mharis i adfer anhrefn cyllidebol Ffrainc a'r Eidal, nac i addasu systemau'r Hen Fyd a'r Byd Newydd.

Ni roddodd y Cyngor o Bedwar [Georges Clemenceau o Ffrainc, David Lloyd George o'r Deyrnas Unedig, Vittorio Emanuele Orlando o'r Eidal, a Woodrow Wilson o'r Unol Daleithiau] unrhyw sylw i'r materion hyn, gan fod eu sylw i gyd ar faterion eraill – Clemenceau ar wasgu bywyd economaidd ei elyn, Lloyd George ar daro bargen a dychwelyd adref â rhywbeth a fyddai'n plesio am wythnos, yr Arlywydd ar wneud dim nad oedd yn briodol ac yn gyfiawn. Mae'n anodd credu mai problemau economaidd sylfaenol Ewrop a oedd yn newynu ac yn chwalu'n ddarnau o'u blaenau oedd yr un cwestiwn nad oedd o unrhyw ddiddordeb i'r Pedwar. Gwneud iawn oedd eu prif nod yn y maes economaidd.

**Thema** Heddwch a gwrthdaro
**Pwnc** Prydain, y Rhyfel Byd Cyntaf a'r ymdrechion i sicrhau heddwch

**Eitem 8** Dyfyniad o *The* Women's Peace Petition (1923).

Rydym yn dyheu am ddiwrnod lle na fydd problemau gwledydd yn cael eu datrys â chleddyf mwyach. Ac rydym o'r farn y byddai gwawr yr Heddwch a fydd yn parhau yn dod yn gynt pe gallai America ddod yn rhan o Gyngor Cynghrair y Cenhedloedd. Sut dylid mynd ati i sicrhau hynny, ni wyddom: ond gwyddom mai'r ddwy genedl gryf a wnaeth gymaint i ddylanwadu ar ffawd y Rhyfel sy'n bennaf cyfrifol am sicrhau'r heddwch parhaus hwnnw. Hebddo, caiff popeth sy'n annwyl i ni ei golli. Rydym yn llawenhau o weld y cydweithio a fu eisoes rhwng America a Phrydain a gwledydd eraill yn Washington wrth gyfyngu arfau morwrol, ac yn Geneva wrth lunio'r mesurau dyngarol i ddod â'r fasnach atgas mewn menywod a phlant i ben.

**Thema** Cymdeithas ac economi
**Pwnc** Dyfodiad y Dirwasgiad

**Eitem 9** R Paul Evans a Steve May, addysgwyr ac awduron hanes, yn eu llyfr i fyfyrwyr TGAU *Oes Elisabeth 1558*–1603 a Dirwasgiad, Rhyfel ac Adferiad 1930–1951 (2017).

Nid un achos neu un digwyddiad yn unig achosodd y Dirwasgiad. Roedd nifer o achosion gwahanol, a chafodd ei ysgogi gan ddigwyddiadau ym Mhrydain a thramor. Roedd bod yn un o'r gwledydd diwydiannol cyntaf yn fantais fawr ond roedd hefyd yn golygu bod cystadleuaeth o wledydd eraill wedi tyfu. Erbyn yr 1920au, roedd y gwledydd hynny wedi dechrau gwneud yn well na Phrydain yn economaidd ac yn ddiwydiannol. Doedd diwydiannau Prydain ddim yn arwain y byd bellach ac roedd y gystadleuaeth yn anodd iddyn nhw. Roedd y Rhyfel Byd Cyntaf wedi bod yn ddrud ac wedi ychwanegu baich arall at broblemau economaidd Prydain. Wedyn cyfunodd y materion hyn â digwyddiad yn UDA – Cwymp Wall Street – gan gael effaith economaidd ledled y byd. O ganlyniad, aeth Prydain drwy ddirwasgiad economaidd mawr yn yr 1930au.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Cymdeithas ac economi
**Pwnc** Dyfodiad y Dirwasgiad

**Eitem 10** Erthygl BBC Bitesize ar gyfer TGAU Hanes o'r enw 'Dechreuad y Dirwasgiad' (Ebrill 2018).

Diwydiant Prydain yn yr 1920au - Dechreuad y Dirwasgiad - CBAC - Adolygu TGAU Hanes - CBAC - BBC Bitesize (yr adran dan y teitl 'Sut arweiniodd hynny at Ddirwasgiad ym Mhrydain?')

**Thema** Cymdeithas ac economi
**Pwnc** Dyfodiad y Dirwasgiad

**Eitem 11** Hilda Jennings, ymchwilydd cymdeithasol a gweithiwr cymunedol, yn ei llyfr *Brynmawr: A Study of a Distressed Area* (1934).

Mae delfrydau crefyddol hirsefydledig yn parhau'n rymus mewn rhai rhannau o'r gymuned ac yn dirywio mewn rhannau eraill; caiff syniadau gwleidyddol newydd fel Comiwnyddiaeth eu pregethu'n ddidrugaredd gan rai selogion. Mae statws y diwydiant glo fel brenin diwydiant yn lleihau ym meddyliau dynion, gan gydnabod nad ffactorau dros dro yn unig sy'n gyfrifol am ddirywiad gwaith cloddio dros gyfnod o ddeng mlynedd yn Ne Cymru; mae diweithdra parhaus ers 1921 wedi newid safonau byw ac wedi achosi lefelau mudo uwch o'r ardal nag erioed o'r blaen. Ond mae bywyd Brynmawr yn cael ei lywio o hyd gan rym dynamig natur, hil, traddodiadau cyffredin a hanes cyffredin. Mae'n parhau'n gymuned ac mae ei phŵer yn dylanwadu ar unigolion o hyd drwy ymlyniadau cymunedol. Ni allwn "fynd at wraidd dirgelwch" Brynmawr, ond byddai'n fuddiol i ni astudio ei hanes er mwyn gallu cynllunio dyfodol iddi yn hytrach na pharhau ar daith o ffyniant gostyngol a dadrith.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Cymdeithas ac economi
**Pwnc** Dyfodiad y Dirwasgiad

**Eitem 12** Adran o set ddata Banc Lloegr *'A millennium of macroeconomic data'* (2016). Mae'r set ddata yn cynnwys set eang o ddata macro-economaidd ac ariannol ar gyfer y DU sy'n ymestyn yn ôl mewn rhai achosion i'r trydedd ganrif ar ddeg.

| Blwyddyn | Y gyfradd ddiweithdra fel % o gyfanswm gweithlu'r DU |
|---|---|
| 1920 | 1.95 |
| 1921 | 11.02 |
| 1922 | 9.68 |
| 1923 | 7.99 |
| 1924 | 7.12 |
| 1925 | 7.76 |
| 1926 | 8.67 |
| 1927 | 6.71 |
| 1928 | 7.43 |
| 1929 | 7.18 |
| 1930 | 11.10 |
| 1931 | 14.88 |
| 1932 | 15.39 |
| 1933 | 13.93 |
| 1934 | 11.73 |
| 1935 | 10.87 |
| 1936 | 9.25 |
| 1937 | 7.70 |
| 1938 | 9.20 |
| 1939 | 5.68 |

**Thema** Cydraddoldeb ac anghydraddoldeb
**Pwnc** "Dwy Brydain" yr 1930au

**Eitem 13** R Paul Evans a Rob Quinn, addysgwyr ac awduron hanes, yn eu llyfr adolygu i fyfyrwyr TGAU *Fy Nodiadau Adolygu: CBAC TGAU Hanes* (2018).

Bu protestio o'r Rhondda hefyd, sef ardal o 16 o gymunedau glofaol yn Ne Cymru. Hyd yn oed cyn i'r Dirwasgiad ddechrau, roedd problemau economaidd gan yr ardal hon. Wrth i'r Dirwasgiad waethygu, cafodd diweithdra effaith ddifrifol iawn ar yr ardal. Dechreuodd pobl feddwl am brotestio a gorymdeithiau newyn fel ffordd o dynnu sylw'r llywodraeth at y materion.

Ar 14 Hydref 1932, dechreuodd gorymdeithiau newyn ledled Prydain gyda'r nod o gyrraedd Llundain ar yr un pryd. Cychwynnodd cyfanswm o 2 500 o orymdeithwyr o wahanol leoedd ym Mhrydain. O Dde Cymru, cychwynnodd 375 o orymdeithwyr o ardal y Rhondda. Y bwriad yw cyflwyno deiseb i'r Senedd yn mynnu bod y prawf modd yn cael ei ddiddymu a bod y gostyngiad o 10 y cant i fudd-daliadau diweithdra yn dod i ben. Cymerodd yr heddlu y deisebau fel na allai'r gorymdeithwyr fynd â nhw i'r Senedd.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Cydraddoldeb ac anghydraddoldeb
**Pwnc** “Dwy Brydain” yr 1930au

**Eitem 14** Walford Johnson, athro economeg, John Whyman, darlithydd mewn hanes economaidd a George Wykes, athro hanes, yn eu llyfr arolwg i fyfyrwyr *A* Short Economic and Social History of Twentieth-Century Britain (1967).

Roedd cysgod diweithdra yn ddylanwad mawr ar y blynyddoedd rhwng y ddau ryfel byd rhwng 1921 a 1931 ac roedd o leiaf 1 000 000 o bobl allan o waith drwy gydol y cyfnod hwnnw; ar eu huchaf yn 1932, cododd lefelau diweithdra i dros 2 750 000 (22.1% o'r boblogaeth weithio). Ar hen ganolfannau diwydiannol Gogledd-ddwyrain Lloegr, yr Alban a De Cymru y cafwyd yr effaith fwyaf. I lawer, dyma oedd blynyddoedd yr ymdeithiau newyn, y Prawf Modd a'r dôl. I lywodraethau dilynol, sut i leddfu diweithdra oedd problem gymdeithasol fwyaf yr oes.

Ond i'r rhai hynny a oedd yn gweithio, roedd yn gyfnod cymharol lewyrchus. Roedd diwydiannau newydd yn ymsefydlu yng Nghanolbarth a De-ddwyrain Lloegr. Gostyngodd costau byw a chafwyd cynnydd cyffredinol mewn cyflogau real. Dangosodd *A New Survey of London Life and Labour* (1928) yn seiliedig ar arolwg [Charles] Booths fod cyflogau real wedi cynyddu draean ers yr 1880au. Nododd [Seebohm] Rowntree gynnydd tebyg yng Nghaerefrog. Roedd pobl yn mwynhau safon byw uwch ac roedd mwy o arian ganddynt i'w wario ar dai gwell, mwy o fwyd ac adloniant, yn enwedig y sinema a'r radio

**Thema** Cydraddoldeb ac anghydraddoldeb
**Pwnc** “Dwy Brydain” yr 1930au

**Eitem 15** George Orwell [Eric Arthur Blair], awdur a beirniad, yn ei lyfr ffeithiol *The Road to* Wigan Pier (1937).

Pan welwch chi fod y ffigurau diweithdra’n ddwy filiwn, mae’n enbyd o hawdd cymryd bod hyn yn golygu bod dwy filiwn o bobl heb waith a bod gweddill y boblogaeth yn gymharol gyfforddus. Rwy’n cyfaddef mai dyna roeddwn innau’n arfer ei gredu tan yn ddiweddar. Petaech chi’n dweud bod y rhai sydd wedi’u cofrestru’n ddi-waith yn rhyw 2 filiwn ac yn ychwanegu’r tlawd a’r rhai oedd heb eu cofrestru am ryw reswm neu’i gilydd, gallech chi gymryd bod nifer y bobl yn Lloegr sydd heb gael digon o fwyd yn 5 miliwn, ar y mwyaf (gan nad yw pawb sydd ar y dôl yn cael digon o fwyd).

Mae hwn yn amcangyfrif rhy isel o lawer. Yn y lle cyntaf, wrth gwrs, yr unig bobl mae'r ffigurau diweithdra yn eu dangos yw'r rhai sydd yn cymryd y dôl, penaethiaid teuluoedd fel arfer. Nid yw dibynyddion dyn di-waith yn cael eu cynnwys ar y rhestr onid ydyn nhw hefyd yn tynnu lwfans ar wahân. Dywedodd Swyddog o'r Gyfnewidfa Llafur wrthyf bod angen i chi lluosogi'r ffigurau swyddogol â rhywbeth dros dri (3). Dim ond felly y byddwch chi'n cael y nifer cywir o bobl sy'n byw ar (ddim yn derbyn) y dôl. Mae hyn ynddo ei hun yn golygu bod nifer y rhai di-waith yn nes at 6 miliwn.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Cydraddoldeb ac anghydraddoldeb
**Pwnc** “Dwy Brydain” yr 1930au

**Eitem 16** Hysbyseb cylchgrawn ar gyfer car Ford V8 (tua canol yr 1930au).



**Thema** Cysylltiadau rhyngwladol
**Pwnc** Dyfodiad y rhyfel

**Eitem 17** R Paul Evans a Steve May, addysgwyr ac awduron hanes, yn eu llyfr i fyfyrwyr TGAU *Oes Elisabeth 1558*–1603 a Dirwasgiad, Rhyfel ac Adferiad 1930–1951 (2017)

Pan ddigwyddodd y Rhyfel Byd Cyntaf rhwng 1914 ac 1918, cafodd ei alw gan lawer o bobl yn 'rhyfel i roi terfyn ar bob rhyfel'. Allai pobl ddim dychmygu mynd drwy'r math hwnnw o brofiad dychrynllyd eto. Roedd llawer yn credu byddai Cynghrair y Cenhedloedd, y corff oedd newydd gael ei greu i gadw'r heddwch, yn sicrhau hyn. Mae rhai yn credu bod telerau Cytundeb Versailles yn 1919 yn ddigon llym i atal gwledydd rhag ymddwyn yn ymosodol eto. Hwn oedd y prif gytundeb heddwch ddaeth â'r rhyfel i ben yn ffurfiol. Dioddefodd yr Almaen, yn enwedig, yn economaidd gan iddi gael ei beio am ddechrau'r rhyfel a'i gorfodi i dalu iawndal (cost y rhyfel) i wledydd eraill. Ond, erbyn 1934, roedd Adolf Hitler wedi dod yn Führer yr Almaen ac yn arweinydd Plaid Genedlaethol Sosialaidd Gweithwyr yr Almaen (y Blaid Natsïaidd). Ei brif nod oedd adfer yr Almaen yn un o bwerau mawrion Ewrop, os nad y byd. Wrth i uchelgais ac ymddygiad ymosodol Hitler dyfu, roedd rhai pobl yn credu bod rhaid gwneud popeth posibl i osgoi rhyfel ac osgoi gorfod paratoi at ryfel, dim ots beth fyddai'r canlyniadau. Roedd eraill yn credu bod ail ryfel byd yn sicr o ddigwydd.

**Thema** Cysylltiadau rhyngwladol
**Pwnc** Dyfodiad y rhyfel

**Eitem 18** Robert Pearce, golygydd y cylchgrawn *History* Review ar y pryd, yn ysgrifennu yn y llyfr i fyfyrwyr Safon Uwch Britain: *Domestic Politics 1918–1939* (2000)

Roedd gwrth-Semitiaeth yn gyffredin iawn ym Mhrydain cyn, yn ystod ac ar ôl y Rhyfel [Byd Cyntaf], ac roedd yr ymerodraeth Brydeinig yn seiliedig ar dybiaethau hiliol di-chwaeth. Yn 1936, mynnodd y papur newydd ffasgaidd *Blackshirt* fod pobl Prydain wedi yn meddu ar y cymeriad a'r ysbryd i arwain cenhedloedd y ddaear, syniad roedd imperialwyr Prydeinig wedi bod yn ei gefnogi ers degawdau. Nid oedd pawb ym Mhrydain yn ymrwymedig i ddemocratiaeth ychwaith. Roedd nifer o bobl wedi'u siomi o weld y bleidlais gyffredinol yn cael ei chyflwyno ac roedd yn well ganddynt y math o reolaeth dadol a oedd ar waith yn y trefedigaethau. Ym Mhrydain y dechreuodd y syniad ffasgaidd fod bywyd yn frwydr ac mai dim ond y cryfaf sy'n goroesi, yn deillio o ddamcaniaethau esblygol Charles Darwin. Herbert Spencer, yr athronydd o Brydain, a wnaeth fathu'r ymadrodd Saesneg 'the survival of the fittest'. Ni ddylem gredu ychwaith mai Undeb Ffasgwyr Prydeinig Oswald Mosley oedd y grŵp ffasgaidd cyntaf a gafodd ei ffurfio ym Mhrydain ...

Roedd memorandwm Mosley ar ddiweithdra, a gyflwynwyd i'r cabinet Llafur yn 1930, eisoes wedi'i sefydlu fel meddyliwr economaidd adeiladol. Erbyn 1931, daeth i'r casgliad nad oedd unrhyw ffordd y gallai democratiaeth seneddol ddatrys problemau'r wlad. Roedd Mosley, fel cymaint o bobl eraill, o'r farn wrth i wleidyddion Prydain ddadlau a thin-droi, fod Mussolini, arweinydd ffasgaidd yr Eidal, wrthi'n adfer yr Eidal i'w gogoniant blaenorol drwy roi diwygiadau beiddgar a sylweddol ar waith.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Cysylltiadau rhyngwladol
**Pwnc** Dyfodiad y rhyfel

**Eitem 19** Y Cytundeb rhwng Prydain a'r Almaen yn addo 'heddwch yn ein hoes ni', wedi'i lofnodi gan Neville Chamberlain ac Adolf Hitler (30 Medi 1938)

Rydym ni, Führer a Changhellor yr Almaen a Phrif Weinidog Prydain, wedi cael cyfarfod arall heddiw ac wedi cytuno i gydnabod bod cysylltiadau Eingl-Almaenig yn hollbwysig i'r ddwy wlad ac i Ewrop.

Rydym o'r farn bod y cytundeb a lofnodwyd neithiwr a'r Cytundeb Morwrol Eingl-Almaenig yn symbol o awydd ein dwy genedl i beidio â mynd i ryfel â'n gilydd byth eto.

Gwnaethom benderfynu y dylid defnyddio dull ymgynghori i ymdrin ag unrhyw gwestiynau eraill a allai fod yn destun pryder i'n dwy wlad, ac rydym yn benderfynol o barhau â'n hymdrechion i ddileu ffynonellau posibl sy'n achosi gwahaniaeth barn a thrwy hynny gyfrannu at sicrhau heddwch yn Ewrop.

**Thema** Cysylltiadau rhyngwladol
**Pwnc** Dyfodiad y rhyfel

**Eitem 20** Don Angus, cartwnydd o Awstralia, yn dangos Neville Chamberlain yn y cartŵn *'British Prestige: Appeasement'.* Yn y cyfnodolyn Prydeinig *Truth* (28 Mehefin 1939). Mae Chamberlain yn cerdded ar hyd rhaff dyn ac i'r dde o'r llun, ceir gwawdlun o ddyn o Japan yn dal cyllell. Islaw'r rhaff, ceir baner yr Eidal a baner sy'n dangos y swastika.




© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Ethnigrwydd
**Pwnc** Cenhedlaeth Windrush

**Eitem 21** David W Bygott, addysgwr ac awdur, yn ysgrifennu yn y canllaw astudio *Black* and British (1992). Enillodd y llyfr Wobr Llyfr Gwybodaeth Uwch y Times Educational Supplement yn 1992.

Gwasanaethodd pobl ddu o bob cwr o'r byd fel rhan o luoedd Prydain yn yr Ail Ryfel Byd, gan gynnwys miloedd o'r Caribî a miliwn a hanner o bobl o India. Chwaraeodd pobl Affro-Caribeaidd lawer o rolau gwahanol. Fel sifiliaid ym Mhrydain, gwnaethant ymgymryd â dyletswyddau mewn llochesau cyrch awyr a gweithio mewn ffatrïoedd arfau rhyfel ac ysbytai. Roedd rhai yn gogyddion, yn glercod neu'n dechnegwyr awyrennau yn y fyddin. Gwasanaethodd Billy Strachan o Jamaica yn y Llu Awyr Brenhinol fel peilot gan hedfan ar fwy na 40 o gyrchoedd dros Ewrop. Daeth wyth cant o goetmyn o Belize (British Honduras ar y pryd) i goedwigoedd yr Alban i gynhyrchu pren ar gyfer ymdrech y rhyfel ...

Yn y ffatrïoedd, buan y llwyddodd rhai pobl ddu i ennyn parch eu cydweithwyr gwyn. Ond ar ôl eu shifft, nid oedd llawer o dafarnau na chlybiau yn barod i'w croesawu. Un eithriad oedd y siop de Ethiopaidd ym Manceinion. Ras Makonnen oedd yn rhedeg y siop hon (a oedd wedi newid ei enw o George Griffith).

Yn gymdeithasol, cafodd y sefyllfa ei gwaethygu gan ryw filiwn o filwyr gwyn o'r UD a oedd wedi'u lleoli ym Mhrydain o 1942. Daethant â'u harfer o arwahanu gyda nhw, a mabwysiadodd llawer o dafarnau a chlybiau ym Mhrydain yr arfer hon er mwyn gallu parhau â'u busnes. Daeth 130 000 o filwyr Americanaidd du draw hefyd, gan wasanaethu mewn catrodau ar wahân i filwyr du, a chawsant eu croesawu gan rai Prydeinwyr, gyda rhai ohonynt hyd yn oed yn eu priodi, ond pobl wyn oedd â'r dylanwad mwyaf. Roedd ganddynt fwy o arian i'w wario. Os oedd Americanwyr gwyn yn hoffi mynychu neuadd ddawnsio neu dafarn benodol, yna byddai dynion du yn cael eu gwahardd, hyd yn oed os oeddent yn ddinasyddion Prydeinig ac yn gwisgo lifrau Ei Fawrhydi.

**Thema** Ethnigrwydd
**Pwnc** Cenhedlaeth Windrush

**Eitem 22** Fideo yn esbonio "What is the Windrush Generation" ar wefan CBBC Newsround (Medi 2023)

What is the Windrush Generation? - BBC Newsround

**Thema** Ethnigrwydd
**Pwnc** Cenhedlaeth Windrush

**Eitem 23** *A* guide to Cardiff, Wales, yn dangos mudwr o Orllewin India yn cyrraedd ardal Tiger Bay ac yn cerdded o gwmpas (1950au). Mae'r rhan hon o'r deunydd fideo yn rhan o adran fwy sy'n cynnwys Kilkeel, Gogledd Iwerddon ac Ynys Lewis yn yr Alban. Mae'r adran yn dechrau drwy ddangos bag o datws ar ei daith i'r dociau yng Nghaerdydd. **Nodwch nad oes unrhyw sain ar y deunydd fideo hwn.**

Tiger Bay, 1950's - Film 96861 - YouTube

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Ethnigrwydd
**Pwnc** Cenhedlaeth Windrush

**Eitem 24** Adroddiad newyddion British Pathé ar derfysgoedd hil Notting Hill (tua Awst-Medi 1958). **Nodwch fod y clip yn cynnwys terminoleg ddifrïol.**

Shameful Episode Aka Racial Riots (1958)

**Thema** Rhyw, rhywioldeb a rhywedd
**Pwnc** Cymdeithas oddefol

**Eitem 25** Mervyn Griffith-Jones, Erlynydd y Goron yn ei sylwadau agoriadol ar ran yr erlyniad yn ystod treial R. v. Penguin Books (1960). Roedd Penguin Books yn cael ei erlyn o dan Adran 2 o Ddeddf Cyhoeddiadau Anweddus 1959 am gyhoeddi argraffiad diymyrraeth [cyflawn ac ansensoredig] o lyfr DH Lawrence *Lady Chatterley's Lover*.

Gadewch i mi bwysleisio hyn ar ran yr erlyniad: peidiwch â mynd ati i ymdrin â'r mater hwn mewn ffordd hunangyfiawn, uchel-ael, manwl gywir o ganol Oes Fictoria ...

[Ond] a fyddech chi'n fodlon i'ch meibion ifanc, i'ch merched ifanc – oherwydd mae merched yn gallu darllen hefyd cystal â bechgyn – ddarllen y llyfr hwn? A yw'n llyfr y byddech chi'n fodlon iddo gael ei weld yn eich tŷ chi? A yw hyd yn oed yn llyfr y byddech chi am i'ch gwraig neu'ch gweision ei ddarllen?

**Thema** Rhyw, rhywioldeb a rhywedd
**Pwnc** Cymdeithas oddefol

**Eitem 26** Christopher Hilliard, athro hanes, yn ysgrifennu yn ei lyfr *A* Matter of Obscenity: *The Politics of Censorship in Modern England* (2021)

Cwestiwn Mervyn Griffiths-Jones yn y treial yn trafod *Lady Chatterley's Lover* yw'r clwyf hunangyflawnol mwyaf enwog yn hanes cyfreithiol Lloegr. Wrth erlyn Penguin Books am gyhoeddi nofel DH Lawrence dri degawd ar ôl i'r awdur farw, gofynnodd Griffiths-Jones i'r rheithgor sut bydden nhw'n teimlo pe byddai'r nofel ar gael i'w weld yn eu cartref. Roedd Griffiths-Jones wedi hen arfer â chael ei ystyried fel ffigur brawychus yn y llys. Roedd wedi erlyn Natsïaid yn Nürnberg. Ond pan ofynnodd y cwestiwn hwn, chwerthin wnaeth y rheithwyr. Roedd Griffiths-Jones wedi diystyru'r tair menyw a oedd yn rhan o'r rheithgor, ac erbyn 1860, prin iawn oedd y teuluoedd ym Mhrydain a oedd yn cyflogi gweision a oedd yn byw yn y cartref – ac yn sicr nid oedd y gweithwyr manwerthu a'r gweithwyr llaw a oedd yn aelodau o'r rheithgor yn gwneud hynny. Roedd yn adeg arwyddocaol amlwg i'r rhai hynny a oedd wedi llwyddo i gael lle yn yr oriel, y bu cystadleuaeth fawr amdanynt. Trodd awdur Americanaidd at y nofelydd o Loegr wrth ei ochr a dywedodd: “Rydym ar fin gweld fersiwn dosbarth canol uwch Lloegr o'n Treial Mwncïod ni yn Tennessee.”

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Rhyw, rhywioldeb a rhywedd
**Pwnc** Cymdeithas oddefol

**Eitem 27** Adroddiad Hansard o'r ddadl ar Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynllunio Teulu), 1967 (23 Hydref 1967). Edwin Brooks oedd AS etholaeth Bebington rhwng 1966 a 1970; Kenneth Robinson oedd y Gweinidog Iechyd rhwng 1964 a 1968.

**Mr Brooks**
Gofynnodd i'r Gweinidog Iechyd pa gamau y mae wedi'u cymryd mewn ymateb i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynllunio Teulu), 1967.

**Mr Robinson**
Ysgrifennais at bob awdurdod lleol ym mis Gorffennaf yn erfyn arnynt i adolygu eu cyfleusterau cynllunio teulu ac i ddefnyddio eu pwerau estynedig o dan y Ddeddf newydd cymaint â phosibl. Rwyf hefyd wedi gofyn iddynt gyflwyno adroddiadau erbyn 31 Mawrth 1968 ar y camau gweithredu a gymerwyd neu'r camau gweithredu arfaethedig.

**Mr Brooks**
Hoffwn longyfarch fy Nghyfaill anrhydeddus am y camau cyflym a gymerodd a chroesawaf yn arbennig y pwyslais ar y gwasanaeth cartref. A hoffai gyflwyno unrhyw sylwadau ar yr ofnau a fynegwyd yn ddiweddar ynghylch yr anawsterau cyfreithiol posibl a allai ddeillio o roi help i bobl ifanc ddibriod?

**Mr Robinson**
Nid wyf yn gwybod a yw fy Nghyfaill anrhydeddus yn cyfeirio at rywfaint o drafod di-sail a fu ynghylch y posibilrwydd y byddai help yn cael ei roi i ferched dan 16 oed. Os felly, rwyf wedi cael sicrwydd mai dim ond o dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol y byddai meddyg yn barod i weld merch dan 16 oed mewn clinig cynllunio teulu, hyd yn oed â chydsyniad y rhieni. Efallai na fyddai'n ddoeth gwahardd y merched hyn yn llwyr rhag cael cyngor. Rwyf wedi cael gwybod na fyddai unrhyw anawsterau cyfreithiol o'r math a ragwelwyd yn codi.

**Thema** Rhyw, rhywioldeb a rhywedd
**Pwnc** Cymdeithas oddefol

**Eitem 28** Sarah Mower, beirniad a newyddiadurwr ffasiwn yn yr erthygl *'How Mary Quant Changed Fashion Forever'* yn *British* Vogue (15 Ebrill 2023).

Ysgrifennodd yr arbennig Mary Quant, a fu farw yr wythnos hon yn 93 oed, y geiriau ysbrydoledig hyn yn eu hunangofiant Quant by Quant: "Nid dim ond y dillad y byddwch yn eu gwisgo sy'n creu'r Golwg. Ond eich ffordd o wisgo colur, o wneud eich gwallt, pa fath o hosanau y byddwch chi'n eu dewis, sut rydych chi'n cerdded ac yn sefyll. Roeddwn am i ferched symud, neidio, byw bywyd!" Does dim ffordd well o hyd o gyfleu egni ffenomenaidd y gwrthryfel ffasiwn ymysg pobl ifanc yn eu harddegau y gwnaeth ei arwain yn yr 1960au.

Gan ysgrifennu yn 1966, roedd Quant eisoes yn enwog ledled y byd fel arweinydd y chwyldro a gyflwynodd y sgertiau mini a'r *hot pants* – datblygiad sydyn diwylliant pop Mod Prydeinig, a ddisgrifiwyd gan Diana Vreeland fel yr "Youthquake". Yn yr un flwyddyn, nododd newyddiadurwr ffasiwn y Daily Mirror, Felicity Green, fod "ysgrifenyddesau, myfyrwyr, a chynorthwywyr siop yn gwisgo sgertiau nad oeddent prin yn gorchuddio eu pen-ôl". Ond ni wnaeth Quant erioed honni mai hi ddyfeisiodd y mini. Yn hynny o beth, cyfeiriodd at y merched o'i hamgylch, y cwsmeriaid yn eu harddegau a oedd wedi dechrau heidio i'w siop Bazaar ar gornel King's Road. "Y ferch o Chelsea, y ferch gyntaf i wisgo bŵts lledr a hosanau du ar King's Road, dim ond i weddill Llundain a gweddill y wlad, ac wedyn gweddill y byd, ei chopïo. Derbyniwyd dillad y ferch hon fel her. Nid oes un dylunydd byth yn gyfrifol am chwyldro o'r fath. Y cyfan y gall dylunydd ei wneud yw rhagfynegi hwyliau pobl," ysgrifennodd. Ymatebodd Quant i geisiadau ei chwsmeriaid am sgertiau "byrrach, byrrach!"

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Crefydd
**Pwnc** Mudiad sy'n dirywio?

**Eitem 29** Pererindod y Bala, Mehefin 1952. Daeth dros 20,000 o bererinion Catholig o bob cwr o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i'r bererindod i gofio Mary Jones, 15 oed, a gerddodd 26 o filltiroedd o Lanfihangel-y-Pennant i'r Bala i brynu Beibl yn 1800, ar ôl cynilo arian am 6 mlynedd.



**Thema** Crefydd
**Pwnc** Mudiad sy'n dirywio?


**Eitem 30** Callum Brown, athro hanes, yn ysgrifennu yn ei lyfr academaidd *The* Death of Christian Britain: *Understanding secularisation 1800–2000* (2001)

Mae'r llyfr hwn yn trafod marwolaeth Prydain Gristnogol – dirywiad hunaniaeth grefyddol a moesol graidd y genedl. O ystyried newidiadau hanesyddol yn gyffredinol, nid mater hirbarhaol, estynedig ydoedd. Cymerodd sawl canrif (yn yr hyn yr arferai haneswyr gyfeirio ato fel yr Oesoedd Tywyll) i drawsnewid Prydain i Gristnogaeth, ond mae wedi cymryd llai na 40 mlynedd i'r wlad gefnu arni. Am fil o flynyddoedd, roedd Cristnogaeth yn dylanwad sylweddol ar fywydau'r bobl, gan oroesi drwy'r Diwygiad, yr Ymoleuo a'r chwyldro diwydiannol drwy addasu i bob cyd-destun cymdeithasol a diwylliannol newydd a gododd. Wedyn, yn sydyn ddigon yn 1963, cafodd cymeriad y wlad a'i phobl ei chwalu gan ddigwyddiad dwys iawn, gan ddanfon Cristnogaeth drefnedig ar lwybr troellog am i lawr tuag at ymylon arwyddocâd cymdeithasol. Mewn niferoedd digynsail, mae pobl Prydain ers yr 1960au wedi rhoi'r gorau i fynd i'r capel neu'r eglwys, wedi rhoi'r gorau i fod yn aelodau o gapeli neu eglwysi, wedi rhoi'r gorau i briodi mewn capel neu eglwys ac wedi penderfynu peidio â bedyddio eu plant. Yn y cyfamser, gwnaeth eu plant, sef y ddwy genhedlaeth a dyfodd i fod yn oedolion yn ystod 30 mlynedd olaf yr ugeinfed ganrif, roi'r gorau i fynd i'r ysgol Sul, gwnaethant roi'r gorau i gofrestru ar gyfer dosbarthiadau conffyrmasiwn neu gymuno, ac anaml, os o gwbl, y byddent yn debygol o gamu i mewn i gapel neu eglwys i addoli ar unrhyw adeg yn ystod eu bywyd.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Crefydd
**Pwnc** Mudiad sy'n dirywio?

**Eitem 31** Graff o'r enw *'Historical patterns of church attendance'* ar wefan *Christian Research* (2018). Mae'r graff yn dangos patrwm lefelau presenoldeb mewn eglwysi Anglicanaidd a Chatholig yn y DU yn ystod yr ugeinfed ganrif (rhwng 1901 a 2007).




**Thema** Crefydd
**Pwnc** Mudiad sy'n dirywio?

**Eitem 32** Hugh Mcleod, athro hanes yr eglwys, yn ei lyfr academaidd *The* Religious Crisis of the 1960s (2007)

Un prif wahaniaeth rhwng ysgolheigion yw'r gwahaniaeth rhwng y rhai hynny sydd o'r farn bod newidiadau crefyddol wedi'u llywio'n bennaf gan ddatblygiadau yn y byd crefyddol a'r rhai hynny, fel Callum Brown, sydd o'r farn eu bod yn deillio'n bennaf o newidiadau cymdeithasol ehangach. I rai, bydd cyfnod yr 1960au i raddau helaeth yn cael ei ystyried yn drasiedi, a'r diwygwyr llawn cynnwrf fel y dihirod. Mae Brown, ar y llaw arall, yr un mor frwdfrydig ag y maen nhw'n besimistaidd. Iddo ef, roedd yr 1960au yn ddechrau gwawr ddedwydd, ac arwresau ei stori yw'r miliynau o fenywod (menywod ifanc gan fwyaf) a wrthododd y diffiniadau o fenyweidd-dra, y rheolau moesol, a'r opsiynau gyrfa a ragnodwyd gan y capeli a'r eglwysi, ac a ymwrthododd â'r dasg o drosglwyddo credoau ac arferion crefyddol i'r genhedlaeth ifancach. ... [Ym marn Brown] yn yr 1960au am y tro cyntaf, roedd y rhai hynny a wrthododd grefydd yn cynnwys cynifer o fenywod â dynion. (Yn fwy diweddar, mae Brown wedi mynd gam ymhellach: gan ddadlau mai menywod oedd yn gyfrifol am seciwlareiddio a bod y rhai hynny a adawodd y capeli a'r eglwysi yn cynnwys llawer mwy o fenywod na dynion).

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Diwylliant
**Pwnc** Pync – gwrthddiwylliant?

**Eitem 33** Janet Street-Porter, gohebydd, yn esbonio effaith y diwydiant cerddoriaeth ar Pync yn y rhaglen ddogfen ar y teledu *'The Year of Punk'* (1977).

The Year Of Punk Documentary London Weekend Television 01/01/78 Darn o 38:54

**JSP (troslais):**

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae grwpiau fel *Slaughter and the Dogs* wedi symud o fyd cwlt lleiafrifol i lwyddiant masnachol. Ar yr un pryd, mae'r gerddoriaeth wedi dod yn fwy soffistigedig. Ar ben arall y raddfa, mae pync wedi rhoi cyfle i lawer o bobl ifanc heb unrhyw uchelgais i ddringo'r siartiau pop i chwarae mewn band. Flwyddyn yn ôl, creodd y pyncs eu rheolau eu hunain. Nawr, wrth i pync a'r diwydiant cerddoriaeth ddod at ei gilydd, mae'r rheolau wedi newid.

Mae rhai grwpiau wedi methu â dilyn y rheolau newydd hyn.

**JSP (gan siarad â Siouxsie Sioux o Siouxsie and the Banshees):**

Pan oeddet ti yn *100 Club*, gwnest ti ddweud wrtha i nad oeddet ti'n nerfus o gwbl. Roeddet ti'n codi i ganu *'Twist and Shout'* a Gweddi'r Arglwydd ac yn gwneud hynny heb feddwl ddwywaith, a nawr rwyt ti'n nerfus.

**SS:** Oeddwn, doedd dim amser i feddwl am y peth, roedd jyst yn digwydd, ac o'n i'n mynd ar y llwyfan heb feddwl am y peth. Nawr, rydw i'n dioddef ac yn mynd yn nerfus ofnadwy. Mae gen i ofn fi fy hun – fel arfer rydw i'n anghofio'r geiriau a beth rydyn ni'n ei wneud. Penchwiban.

**JSP:** Wel, wyt ti'n fwy nerfus gan fod mwy yn y fantol – am dy fod am gael contract recordio a bod pethau rywfaint yn fwy cystadleuol erbyn hyn?

**SS:** Na, dim ond cystadlu â fi fy hun ydw i, dyna i gyd. Rydyn ni am gael contract recordio, ond nid cymaint ein bod yn barod i gyfaddawdu mewn unrhyw ffordd. Sy'n anodd iawn.

**JSP:** Wyt ti wedi cael llawer o gynigion?

**SS:** Naddo. A dyna pam. Siŵr o fod.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

**Thema** Diwylliant
**Pwnc** Pync – gwrthddiwylliant?

**Eitem 34** Noel Gardner, newyddiadurwr cerddoriaeth, yn ysgrifennu yn yr erthygl *'About Punk Music in Wales'* fel rhan o adran *Wales Music* ar wefan y BBC (2010). Nodwch: roedd y sengl NCB yn cyfeirio at y Bwrdd Glo Cenedlaethol.

BBC Wales - Music - Rock - Punk music in Wales - part one (o '*The 'birth' of punk*…' at '*They tried to play it live on the day in Llandaff fields but were arrested*".')

**Thema** Diwylliant
**Pwnc** Pync – gwrthddiwylliant?

**Eitem 35** Fideo ar gyfer sengl Sex Pistols, *Anarchy* in the UK (Tachwedd 1976)

Sex Pistols - Anarchy In The UK

**Thema** Diwylliant
**Pwnc** Pync – gwrthddiwylliant?

**Eitem 36** Matthew Worley, athro hanes modern, yn ysgrifennu yn yr erthygl 'Punk into Post-Punk' ar wefan Amgueddfa Diwylliant Pobl Ifanc (2019)

Daeth pync Prydeinig i'r amlwg yn 1976, yn seiliedig ar y Sex Pistols a chan ledaenu – fel feirws – i faestrefi, rhanbarthau a dinasoedd y DU. O'r cychwyn cyntaf, fwy neu lai, roedd pync yn faes diwylliannol dadleuol. Yn y DU, tarddle pync oedd SEX (y siop a sefydlwyd gan Malcolm McLaren a Vivienne Westwood ar King's Road yn Llundain) a chafodd ei ledaenu gyntaf gan y Sex Pistols ac wedyn gan y grwpiau di-rif a ysbrydolwyd ganddynt. Er y gellid dod o hyd i ffactorau parhaus o'r diwydiant roc a rôl cynnar drwy wrth-ddiwylliant yr 1960au, Glam ac ymlaen i ganol yr 1970au o edrych yn agosach, cafodd pync ei gyflwyno fel maes a oedd yn negyddu popeth fwy neu lai: llinell wedi'i thynnu yn y tywod diwylliannol i ailosod ac adfer diwylliant ieuenctid fel safle ar gyfer hwyl pryfoclyd, protest a dychymyg ...

Cafodd amrywiaeth o fandiau, clybiau, ffansîns a labeli recordio eu creu yn ystod *moment* pync (1976-7). Ar ôl y panig moesol a ddeilliodd o ymddangosiad y Sex Pistols yn llawn iaith bras ar raglen deledu amser te ym mis Rhagfyr 1976, symudodd pync i mewn i ymwybyddiaeth y cyhoedd ehangach. Llwyddodd y cynnwrf a oedd yn gysylltiedig â sengl *'God Save the Queen'* y Sex Pistols (1977), a ryddhawyd i gyd-fynd â'r Jiwbilî ac a oedd mewn clawr Jamie Reid yn dwyno Elisabeth II, i ychwanegu bwriad gwrthryfelgar at dramgwyddaeth pync ...

A dyma ni yn yr 2020au ac mae pync yn staen ar ffabrig diwylliant o hyd. Mae hiraeth, sy'n gysyniad gwbl groes i pync, yn ddylanwad trwm ar wyliau cerddoriaeth a straeon diflas yr oes a fu. Mae prosesau cyfethol wedi arwain at sefyllfa lle mae graffeg pync yn gwerthu cardiau credyd a byrgyrs (yn unol â rhagfynegiadau Jamie Reid). Ond edrychwch yn ddyfnach, ac mae llawer i'w ailddarganfod a llawer y gellir ei ddefnyddio o hyd o effaith ddiwylliannol pync.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cydnabyddiaeth:


| | |
|---|---|
| 1. | O DeMarco, N a Radway R. 1997. *The Twentieth Century 1900–1995: A World Transformed* Llundain: Hodder & Stoughton, tt.134–5 |
| 2. | Great speeches of the 20th century: Emmeline Pankhurst's Freedom or death \| Emmeline Pankhurst \| The Guardian [Cyrchwyd 21.10.2024] |
| 3. | O Murphy, D *et al.* 2003. *Britain 1783–1918.* Llundain: Collins Educational, t.436 |
| 4. | https://c7.alamy.com/comp/2D9TBYG/the-cat-and-mouse-act-poster-replica-memorabilia-relating-to-the-suffragette-movement-in-britain-2D9TBYG.jpg [Cyrchwyd 21.10.2024] |
| 5. | BBC - History - World Wars: The Origins of World War One [cyrchwyd 21.10.2024] |
| 6. | Lowe, N. 2009. *Modern British History* (Pedwerydd Argraffiad). Basingstoke: Palgrave Macmillan t.452 |
| 7. | The Economic Consequences of the Peace - Econlib [cyrchwyd 21.10.2024] Pennod 6 |
| 8. | The womens peace petition full text \| Casgliad y Werin Cymru [Cyrchwyd 21.10.2024] |
| 9. | Evans, RP a May S. 2017. *Oes Elisabeth 1558–1603 a Dirwasgiad, Rhyfel ac Adferiad, 1930–1951.* Llundain: Hodder Education, t.119 |
| 10. | Diwydiant Prydain yn yr 1920au - Dechreuad y Dirwasgiad - CBAC - Adolygu TGAU Hanes - CBAC - BBC Bitesize [Cyrchwyd 21.10.2024] |
| 11. | History of Brynmawr, Wales [Cyrchwyd 21.10.2024] |
| 12. | Setiau data ymchwil \| Banc Lloegr [Cyrchwyd 22.10.2024] |
| 13. | Evans, RP a Quinn, R. 2018. *Fy Nodiadau Adolygu: CBAC TGAU Hanes.* Llundain: Hodder Education, t. 51 |
| 14. | Johnson, W, Whyman, J a Wykes, G. 1967. *A Short Economic and Social History of Twentieth Century Britain*. Llundain: George Allen and Unwin Ltd., t. 162 |
| 15. | Orwell, G. 1937. *The Road to Wigan Pier.* Llundain: Left Book Club, Pennod 5 |
| 16. | 3-1930s-uk-ford-magazine-advert-the-advertising-archives.jpg (684×900) [Cyrchwyd 22.10.2024] |
| 17. | Evans, RP a May S. 2017. *Oes Elisabeth 1558–1603 a Dirwasgiad, Rhyfel ac Adferiad, 1930–1951.* Llundain: Hodder Education, t.137 |
| 18. | Pearce, R. 2000. *Britain: Domestic Politics 1918–1939* (ail argraffiad). Llundain: Hodder & Stoughton, tt.122–4 |
| 19. | Evans, RP a May S. 2017. *Oes Elisabeth 1558–1603 a Dirwasgiad, Rhyfel ac Adferiad, 1930–1951.* Llundain: Hodder Education, t.142 |
| 20. | ATL: Unpublished Collections [Cyrchwyd 23.10.2024] |
| 21. | Bygott, DW. 1992. *Black and British.* Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen, t.51 |
| 22. | What is the Windrush Generation? - BBC Newsround |
| 23. | Tiger Bay, 1950's - Film 96861 - YouTube |
| 24. | Shameful Episode Aka Racial Riots (1958) |
| 25. | Lady Chatterley's Lover and the Attic Orators: The Social Composition of the Athenian Jury on JSTOR: [Cyrchwyd 24.10.2024] |


© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| 26. | The Lady Chatterley's Lover Trial and the Infamous Question That Laid Bare the Hypocrisy of British Obscenity Law ‹ CrimeReads [Cyrchwyd 24.10.2024] |
| 27. | National Health Service (Family Planning) Act, 1967 - Hansard - UK Parliament [Cyrchwyd 24.10.2024] |
| 28. | How Mary Quant Changed Fashion Forever \| British Vogue [Cyrchwyd 24.10.2024] |
| 29. | LOOK: Nostalgic pictures show religion in North Wales through the decades - North Wales Live [Cyrchwyd 29.10.2024] |
| 30. | Brown, C. 2001. *The Death of Christian Britain: Understanding secularisation 1800–2000*. Llundain: Routledge, t.1 |
| 31. | Anglican UK - Archives & statistics - Christian Research [Cyrchwyd 23.10.2024] |
| 32. | McLeod, H. 2007. *The Religious Crisis of the 1960s*. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen, t.13 |
| 33. | The Year Of Punk Documentary London Weekend Television 01/01/78 Darn o 38:54 [cyrchwyd 21.10.2024] |
| 34. | BBC Wales - Music - Rock - Punk music in Wales - part one [Cyrchwyd 23.10.2024] |
| 35. | Sex Pistols - Anarchy In The UK |
| 36. | Punk - Museum of Youth Culture [Cyrchwyd 23.10.2024] |


## Hawlfraint

Gwnaed pob ymdrech i gysylltu â pherchnogion hawlfraint pan ystyriwyd bod darnau y tu hwnt i gwmpas bargeinio teg, ac ni chafwyd ymateb gan rai ohonynt. Os bydd yn peri unrhyw bryder i'r cyhoeddwr neu unrhyw barti arall â diddordeb, cysylltwch â ni a byddwn yn gweithredu'n briodol.Hyd eithaf ein gwybodaeth, defnyddir pob eitem arall yn unol â'r Polisi Defnydd Teg; os oes unrhyw hegporiadau neu wallau, cysylltwch â ni fel bod modd gwneud y cywiriadau anghenrheidiol. datblygucymwysterau@cbac.co.uk.